



Ysgol Bod Alaw, Abergele Road, Colwyn Bay, Conwy, LL29 7ST
01492 530420 | swyddfa@bod.alaw.conwy.sch.uk | www.ysgolbod.alaw.org | @YsgolBodAlaw
Pennaeth: Mr Dafydd Rhys | Dirprwy Bennaeth: Mrs Elin V Hutchinson / Mrs Sam Kendall

15/12/2023

Annwyl Deulu,

Dyma nodyn i'ch atgoffa am ddigwyddiadau wythnos nesaf.

GWASANAETHAU A CHYNGHERDDAU NADOLIG

Gyntaf oll, ga i ddiolch yn fawr i chi gyd am gefnogi'r ysgol drwy ddod i'r lluo o gyngherddau a Gwasanaethau Nadolig yn ystod yr wythnos. Mae wedi bod yn bump diwrnod llwyddiannus dros ben ac rydym yn edrych ymlaen yn fawr at y gyngerdd olaf, sef un y Meithrin prynhawn, ddydd Llun nesaf 18.12.23 am 2yp

GWAITH AR Y FFORDD

Diolch i chi hefyd am gyd-weithio gyda ni tra fod y gwaith ar lon yr ysgol wedi cymryd lle. Ein dealltwriaeth a'n gobaith yw y bydd yr holl waith wedi gorffen erbyn dydd Llun ac y bydd y lon nôl ar agor.

PARTION NADOLIG

Bydd y partion fel a ganlyn:

Dydd Llun – Uned dan 6

Dydd Mawrth – Uned dan 9 ac Uned dan 12

Dydd Iau - Meithrin

Mae croeso i'r plant wisgo dillad partio / Nadoligaidd ar y diwrnodau penodol yna.

PANTOMEIM

Cofiwch fod plant Derbyn i Fl6 i gyd yn mynd i'r Pantomeim yn Rhyl ar ddydd Mercher 20.12.23. Os nad ydych chi wedi talu eto, plis gwnewch ar ParentPay erbyn dydd Llun nesaf fan bellaf.

Rydym yn gobeithio bydd y bws cyntaf o 5 yn cyrraedd nôl i'r ysgol tua 4yp.

BWYDLEN YSGOL

Newid i'r fwydlen ginio:

Dydd Mawrth 19/12/2023

Ffiled Cyw Iâr, pasta a ffa pob

Dydd Iau 21/12/2023

Ffiled eog mewn briwsion bara, sglodion a ffa pob/pys

DYDDIADAU ERAILL

Dydd Iau 21.12.23

Diwrnod olaf yn yr ysgol

Dydd Gwener 22.12.23

HMS - Dim ysgol i blant

Dydd Llun 8.1.24

Hms – Dim ysgol i blant

Dydd Mawrth 9.1.24

Plant nôl yn yr ysgol



Ysgol Bod Alaw, Abergele Road, Colwyn Bay, Conwy, LL29 7ST
01492 530420 | swyddfa@bodalar.conwy.sch.uk | www.ysgolbodalar.org | @Ysgolbodalar
Pennaeth: Mr Dafydd Rhys | Dirprwy Bennaeth: Mrs Elin V Hutchinson / Mrs Sam Kendall

TAKE PART

Mae gennym ni ddigwyddiad gwych ar y gweill yn Venue Cymru ym mis Ionawr a byddwn mor ddiolchgar pe baech chi'n gallu ein helpu i ledaenu'r gair i'ch myfyrwyr a'u teuluoedd.

Take pART yw ein digwyddiad celfyddydau, llenyddiaeth a gwyddoniaeth blynyddol a bydd yn dychwelyd rhwng 13eg a 14eg o Ionawr, 2024.

Gall mynychwyr ddisgwyl penwythnos llawn dop o weithgareddau a gweithdai ar gyfer pob oed, yn cynnwys dawns, gwneud modelau, theatr gerdd, a llawer mwy, y rhan fwyaf ohonynt yn rhad ac am ddim.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda,

Dafydd Rhys a Staff Ysgol Bod Alaw